Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

# CYDYMFFURFIO Â SAFONAU'R GYMRAEG

# CANLLAWIAU PRYDERON A CHWYNION

**Diben y canllawiau hyn**

Paratowyd y canllawiau hyn i fodloni gofynion Safonau'r Gymraeg a osodwyd ar Brifysgol Wrecsam, a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2018, dan Adran 44 Mynesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a sefydlodd fframwaith cyfreithiol i osod dyletswydd statudol ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i gydymffurfio â'r safonau hynny a thrin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.

Diben Safonau'r Gymraeg yw rhoi mwy o hawliau i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ym mywyd bob dydd. Eu nod yw diogelu, hyrwyddo, hwyluso a normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru, gan ei gwneud hi'n fwy eglur i siaradwyr Cymraeg pa wasanaethau y gallant ddisgwyl eu derbyn yn y Gymraeg a'i gwneud yn glir i sefydliadau beth yw eu dyletswyddau mewn perthynas â'r Gymraeg gan sicrhau bod mwy o gysondeb o ran gwasanaethau Cymraeg yng Nghymru.

Mae'r canllawiau hyn yn rhestru'r dulliau sydd ar gael i unigolion sy'n dymuno lleisio pryder yn hytrach na chwyn a sut fydd y Brifysgol yn derbyn, prosesu a chofnodi materion o'r fath ynghylch diffyg cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg Mae hefyd yn egluro sut fydd y Brifysgol yn hyfforddi ei staff i ymdrin â chwynion sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg a sut fydd y Brifysgol yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r canllawiau hyn.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i sicrhau bod unigolion sydd â chyswllt â'r sefydliad, ac sy'n anfodlon ar y rhyngweithio hwnnw, neu sydd eisiau codi ymwybyddiaeth o fater yn anffurfiol, yn cael cyfle i gael ymchwiliad priodol i'w bryder. Os bydd y Brifysgol yn ystyried bod sail i gŵyn, mae'r mecanwaith hwn hefyd yn rhoi'r cyfle i'r Brifysgol ymateb a phryd bynnag sy'n briodol, yn cynnig datrysiad. Yn yr un modd, os caiff pryder anffurfiol ei leisio, yna byddwn yn ymchwilio i hyn ac yn ymateb iddo yn unol â hynny.

**Cwmpas y canllawiau**

Mae'r canllawiau hyn ar gyfer ymdrin â phryderon anffurfiol a chwynion ffurfiol a geir sy'n ymwneud â safonau'r Gymraeg yn unig. Ni ddylid defnyddio'r canllawiau hyn mewn perthynas ag unrhyw wasanaeth arall a ddarperir gan y Brifysgol oni bai bod y gŵyn yn ymwneud yn benodol â Safonau'r Gymraeg neu'r Gymraeg. Mae gweithdrefnau eraill ar waith i ymdrin â chwynion nad ydynt yn ymwneud â Safonau'r Gymraeg (gweler Cwynion Trydydd Parti, dylai myfyrwyr a staff PGW ddefnyddio'r polisïau priodol ar y fewnrwyd berthnasol).

Mae’r canllawiau hyn yn berthnasol i aelodau’r cyhoedd, gan gynnwys staff a myfyrwyr PGW sy’n dymuno lleisio pryder neu wneud cwyn ffurfiol mewn perthynas â chydymffurfiaeth y Brifysgol â Safonau’r Gymraeg.

Po gynharaf y tynnir sylw'r Brifysgol at bryder neu gŵyn, po gynharaf ag sy'n ymarferol bosibl y gellir ymchwilio iddynt a'u datrys.

Disgwylir i achwynydd, neu rywun sy'n gweithredu ar ran yr achwynydd, gyflwyno cwyn i'r Brifysgol cyn pen blwyddyn ar ôl dod yn ymwybodol o’r mater honedig. Dim ond yn ôl disgresiwn y Brifysgol yr ymchwilir i gwynion sy'n ymwneud â chyfnod hwy na 12 mis cyn i’r gŵyn gael ei chyflwyno.

**Codi Ymwybyddiaeth o'r Broses Pryder (Anffurfiol)**

Mae'r mecanwaith anffurfiol hwn ar gyfer unigolion nad ydynt yn dymuno cyflwyno cwyn ffurfiol i'r Brifysgol, ac sydd eisiau tynnu sylw'r Brifysgol at bryder sydd ganddo er mwyn ei ymchwilio a'i ddatrys, *os yw hynny'n briodol*, cyn gynted â phosibl.

**Gellir cyflwyno pryderon i Uwch Swyddog Cydymffurfio y Brifysgol mewn sawl ffordd; dros y ffôn, e-bost, llythyr neu gellir trefnu cyfarfod i drafod. Mae'r Brifysgol yn croesawu'r dull anffurfiol hwn gan yn aml y gellir datrys materion yn anffurfiol ac yn brydlon.**

**Proses Gwyno Ffurfiol**

Gofynnir i unigolion sy'n dymuno gwneud cwyn ffurfiol ynghylch cydymffurfiaeth y Brifysgol â Safonau'r Gymraeg wneud hynny drwy ysgrifennu'n ffurfiol at Uwch Swyddog Cydymffurfiaeth y Brifysgol drwy e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriad ar ddiwedd y canllawiau hyn, gan nodi'r sail dros y gŵyn a'r datrysiad a ddymunir.

Ar ôl i gŵyn ddod i'n cyrraedd, fel arfer bydd yr achwynydd yn cael cydnabyddiaeth cyn pen 5 diwrnod gwaith bod ei lythyr wedi cyrraedd a manylion o ran bwriad y Brifysgol i ymdrin â'r mater.

Ar ôl i gŵyn ddod i law yr Uwch Swyddog Cydymffurfio, bydd ymchwiliad yn mynd rhagddo gan yr Uwch Swyddog Cydymffurfio i asesu a oes unrhyw sail dros y gŵyn bod y Brifysgol wedi methu â chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Darperir ymateb fel yr amlinellir yn yr adran nesaf.

Yn dilyn yr ymchwiliad, darperir ymateb ysgrifenedig llawn cyn pen 28 diwrnod pryd bynnag sy'n bosibl. Pan all yr ymateb gymryd yn hirach na 28 diwrnod gwaith, bydd yr Uwch Swyddog Cydymffurfio yn ysgrifennu at yr achwynydd er mwyn rhoi gwybod iddo y rheswm/rhesymau dros hyn ac er mwyn darparu amserlen ddiwygiedig.

Bydd yr ymateb yn cynnwys canfyddiadau'r ymchwiliad, ac os canfyddir bod cwyn wedi'i chyfiawnhau, darperir datrysiad, a all gynnwys er enghraifft, cadarnhad o newidiadau perthnasol i brosesau a gweithdrefnau mewnol, ymddiheuriad, neu hyfforddiant staff i sicrhau nad yw'r mater yn codi eto.

Bydd y gŵyn yn cael ei rhoi gerbron Pwyllgor Monitro Safonau'r Gymraeg y Brifysgol. Bydd unrhyw gŵyn a geir ynghylch ymddygiad aelod o staff yn cael ei hanfon at yr adran Adnoddau Dynol a bydd y gweithdrefnau perthnasol ar gyfer ymdrin â chwynion fel hyn yn cael eu dilyn

**Anfodlonrwydd â'r ymateb a gafwyd**

Os yw achwynydd yn parhau i fod yn anfodlon gyda'r ymateb a gafodd, caiff ysgrifennu at yr Is-ganghellor yn nodi'r sylfaen ar gyfer yr anfodlonrwydd parhaus ac yn amlinellu'r datrysiad sydd, yn ei dyb ef, yn parhau i fod yn rhesymol dan yr amgylchiadau. Bydd yr Is-ganghellor yn ystyried y mater neu'n gofyn i aelod arall o staff uwch wneud hynny ac ymateb i'r unigolyn.

Gall yr achwynydd fynd â'r mater ymhellach drwy gyflwyno cwyn ynghylch y Brifysgol i Gomisiynydd y Gymraeg drwy wefan Comisiynydd y Gymraeg.

**Cofnodi pryderon a chwynion**

Bydd y Brifysgol yn monitro pob pryder a chwyn sy'n ein cyrraedd ni ac sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Rydym yn cofnodi'r nifer o bryderon a chwynion (yn ddienw) sy'n ein cyrraedd ni ynghylch cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn ein hadroddiad blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg.

Mae Pwyllgor Monitro Safonau'r Gymraeg y Brifysgol yn cael adroddiadau rheolaidd ynghylch pryderon a chwynion sy'n ein cyrraedd ni mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae'r Pwyllgor Adnoddau Dynol yn cael adroddiadau rheolaidd ynghylch cydymffurfiaeth y Brifysgol â Safonau'r Gymraeg.

Nid yw'r Brifysgol yn rhannu unrhyw wybodaeth bersonol ynghylch achwynwyr gydag unrhyw gorff allanol. Bydd y Brifysgol yn rhannu hunaniaeth yr achwynwyr yn fewnol o fewn PGW dim ond pan mae hynny'n berthnasol. Gall yr amgylchiadau hyn gynnwys rhannu'r wybodaeth yr ydych yn ei chyflwyno gyda'r adran neu'r gwasanaeth a fethodd i gydymffurfio â'r Safonau neu a rwystrodd eich hawl i ddefnyddio'r Gymraeg.

**Hyfforddi Staff**

Bydd y Brifysgol yn sicrhau bod ei haelodau o staff presennol yn ymwybodol o'r canllawiau hyn drwy adran 'Cymraeg@Wrecsam' y Fewnrwyd, ei chylchlythyr a fforymau perthnasol eraill.

Mae sesiynau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar gael i bob aelod o staff a chânt eu trefnu gan yr Adran AD. Maent yn cynnwys gwybodaeth ynghylch ymdrin â chwynion sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

Bydd y canllawiau hyn ar gael i bob aelod o staff ar wefan y Brifysgol, yn ogystal ag ym mhob swyddfa o fewn y Brifysgol sy'n agored i'r cyhoedd.

**Hyrwyddo'r Canllawiau**

Caiff y canllawiau hyn eu harddangos ar Fewnrwyd y Brifysgol, a mewnrwyd myfyrwyr a staff. Mae tudalen ar y wefan yn egluro sut all myfyrwyr, staff a'r cyhoedd godi pryder neu gyflwyno cwyn ffurfiol neu unrhyw sylwadau eraill sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn y Brifysgol, a sut ydym yn ymdrin â chwynion.

Mae copi o'r canllawiau hyn ar gael ym mhob swyddfa yn y Brifysgol sy'n agored i'r cyhoedd.

**Manylion Cyswllt**

Uwch Swyddog Cydymffurfiaeth
Prifysgol Wrecsam
Plas Coch
Ffordd yr Wyddgrug
Wrecsam LL11 2AW

E-bost: Welshcompliance@Wrexham.ac.uk

Ffôn: 01978 290666